Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Llanbedrog

**Llanbedrog**
**Pwllheli**
**Gwynedd**
**LL53 7NU**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Ysgol Llanbedrog

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Llanbedrog |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer o ddisgyblion ar y gofrestr | 94 |
| Nifer o ddisgyblion o oedran ysgol statudol | 65 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yn berthnasol) | 11 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn Cynradd yw 23.7%) | 4.1% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn Cynradd yw 13.2%) | 14% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 38.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 02/09/2013 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 07/05/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 18/03/2024 |

Daw'r data yma o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Flynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn yr arsylwyd yn ystod yr arolwg.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:
Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'angenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae bron bob disgyblion yn mwynhau eu hamser yn yr ysgol sy'n gyfeillgar, ofalgar a chefnogol. Maent yn ymfalchïo yn eu hysgol ac yn gwneud cyfraniad sylweddol at yr ethos hyfryd sy'n bodoli ynddi. Mae'r disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn ac yn ymdrin ag eraill gyda pharch a chwrteisi cyson. Un o rinweddau nodedig yr ysgol yw'r modd mae staff yn sicrhau bod yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig yn greiddiol i fywyd a gwaith yr ysgol. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn siarad a chyfathrebu'n hyderus yn y Gymraeg mewn ystod o gyd-destunau amrywiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd yn y ddwy iaith, eu medrau rhifedd a digidol.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn cynnig ystod eang o brofiadau diddorol ac ysgogol ar draws y meysydd dysgu a phrofiad. Mae barn y disgybl yn rhan bwysig o'r broses o gynllunio gweithgareddau, ac o ganlyniad, mae bron bob disgybl yn ymroi'n frwdfrydig i'w profiadau. Mae staff yn meithrin awyrgylch bositif yn y dosbarthiadau ac maent yn gymunedau dysgu gweithgar a phwrpasol. Mae athrawon yn defnyddio ystod addas o ddulliau addysgu effeithiol. Er hyn, trwy or gyfarwyddo'r dysgu, maent yn dueddol o gyfyngu ar allu'r disgyblion hynaf i wneud penderfyniadau am y modd maent yn cofnodi a chyflwyno eu gwaith.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir a chadarn ar gyfer yr ysgol. Caiff ei chefnogi'n frwd gan y staff a llywodraethwyr, sy'n rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus gyda phawb yng nghymuned yr ysgol. Mae ymdeimlad cryf o gydweithio fel tîm yn sicrhau bod pob aelod o staff yn teimlo bod eu cyfraniad yn cael ei werthfawrogi gan arweinwyr. Maent yn rhannu arferion effeithiol yn fwriadus ymysg ei gilydd a gyda chydweithwyr mewn ysgolion cyfagos. Mae staff yn cymryd rhan llawn yn mhrosesau hunan werthuso'r ysgol ac o ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau a meysydd gwella'r ysgol. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at welliant parhaus yr ysgol dros amser.

## Argymhellion

A1 Lleihau'r defnydd o daflenni parod er mwyn galluogi'r disgyblion hynaf i wneud dewisiadau am y modd maent yn cofnodi a chyflwyno eu gwaith

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae lleiafrif y disgyblion yn cychwyn yn yr ysgol gyda medrau Cymraeg llafar cadarn. Mae medrau llythrennedd rhifedd a chymdeithasol llawer o ddisgyblion yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu cam datblygiad a'u hoedran. Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf mewn ystod eang o fedrau, gan gynnwys y Gymraeg, ac yn datblygu i fod yn aelodau aeddfed o gymuned yr ysgol.

Mae bron bob disgybl ar draws yr ysgol yn datblygu eu medrau gwrando'n effeithiol. Yn y dosbarth meithrin a derbyn, maent yn dilyn cyfarwyddiadau staff ac yn ymateb i gwestiynau yn bwrpasol. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol mae bron bob disgybl yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig wrth wrando'n feddylgar ac aeddfed ar farn a syniadau ei gilydd.

Mae medrau llafar bron bob disgybl yn datblygu yn dda yn y ddwy iaith. Mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa'n bwrpasol mewn sefyllfaoedd amrywiol. Er enghraifft, mae disgyblion y dosbarth derbyn yn dewis geiriau penodol wrth drafod cynnwys stori gyfarwydd yn hyderus. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn sgwrsio'n fyrlymus gydag oedolion a'i gilydd gan ddefnyddio Cymraeg safonol a brawddegau llawn, er enghraifft wrth egluro pa gynhwysion sydd ei angen arnynt i wneud peli bwyd adar. Mae bron bob disgybl yn parhau i ddatblygu eu medrau llafar yn dda wrth iddynt ddatblygu drwy'r ysgol. Maent yn cyfathrebu'n rhugl yn y ddwy iaith ac yn siarad yn hyderus mewn ystod o gyd-destunau, er enghraifft wrth i ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 drafod cynnwys ffynonellau hanesyddol o'r ardal leol.

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gelfydd. Mae bron bob un o'r disgyblion ieuengaf yn adnabod seiniau a llythrennau yn hyderus. Erbyn Blwyddyn 1, maent yn darllen ystod gynyddol o eirfa yn gywir, er enghraifft wrth ddarllen berfau gorchmynnol. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae eu medrau darllen yn y ddwy iaith yn datblygu'n hynod effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 4 yn darllen ystod o destunau ffeithiol yn hyderus wrth gywain gwybodaeth am fynyddoedd Eryri, gan ddefnyddio'r wybodaeth yn bwrpasol i greu pamffled diogelwch i ddringwyr.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu medrau ysgrifennu. Mae'r disgyblion ieuengaf yn ymarfer eu medrau ysgrifennu cynnar gan ddefnyddio gwahanol offer yn yr ardaloedd tu fewn a thu allan yn bwrpasol. Maent yn dechrau ffurfio llythrennau yn gywir ac yn cyfateb seiniau a llythrennau yn llwyddiannus. Erbyn Blwyddyn 3, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n gynyddol annibynnol at wahanol bwrpasau ar draws y cwricwlwm yn effeithiol, er enghraifft wrth ysgrifennu cerdd am yr Wyddfa gan ddefnyddio cwpledi ac ansoddeiriau'n effeithiol. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cofnodi eu syniadau'n effeithiol ac yn dangos dealltwriaeth dda o nodweddion ffurfiau ysgrifennu amrywiol yn y ddwy iaith. Er enghraifft, maent yn defnyddio cwestiynau rhethregol ac iaith berswâd yn fedrus wrth ysgrifennu pamffled wybodaeth i rieni am bwysigrwydd cwsg i blant.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau rhifedd. Yn y dosbarth meithrin a derbyn, maent yn cyfri'n hyderus hyd at ddeg ac yn adnabod a chyferbynnu gwrthrychau a rhifau yn llwyddiannus, er enghraifft wrth adnabod a chyfateb rhifau yn y tywod. Ym Mlwyddyn 1 a 2, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau yn hyderus mewn nifer o sefyllfaoedd, er enghraifft wrth gyfrifo a mesur gan ddefnyddio unedau safonol wrth greu model o dŷ. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 2 yn adnabod priodweddau siapiau 2D ac yn ddarllen yr amser ar gloc analog yn llwyddiannus. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn hyderus wrth gymhwyso eu medrau mathemateg mewn amryw o gyd-destunau rhifedd ar draws y meysydd dysgu. Er enghraifft, maent yn defnyddio eu gwybodaeth a dealltwriaeth o siartiau a graffiau i ddadansoddi amserlenni bws gan ddefnyddio’r wybodaeth i gyfrifo’r amser mae’n ei gymryd i deithio o un ardal i’r llall.

Mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae’r disgyblion ieuengaf yn defnyddio amrywiaeth o apiau’n effeithiol wrth ryngweithio yn yr ardaloedd dysgu. Maent yn hyderus wrth ddefnyddio llechen gyfrifiadurol i gyfoethogi eu dysgu, er enghraifft wrth recordio fideo o’i gilydd tra’n cynnal cyfweliadau i gymeriadau mewn llyfr. Mae’r disgyblion hynaf yn defnyddio ystod o raglenni’n hyderus, er enghraifft wrth fewnbynnu gwybodaeth mewn cronfa ddata am uchder mynyddoedd Cymru. Maent yn cyfuno delweddau, sain a fideo mewn cyflwyniad yn effeithiol, er enghraifft i greu hysbyseb i ddenu ymwelwyr i Bwllheli yn ystod Oes Fictoria.

Ar draws yr ysgol, mae’r disgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn hynod lwyddiannus drwy ystod eang o weithgareddau celfyddydol gan gynnwys drama, dawns, celf a cherddoriaeth. Maent yn defnyddio ystod dda o adnoddau i efelychu dulliau celf artistiaid enwog o Gymru, ac maent yn mwynhau perfformio mewn cyngherddau ac eisteddfodau. O ganlyniad, caiff hyn effaith gadarnhaol ar hyder disgyblion wrth gyflwyno eu hunain yn greadigol, gan gynnwys eu gallu i ddatblygu eu medrau llafar Cymraeg yn effeithiol.

Mae bron bob disgybl yn datblygu eu medrau corfforol yn dda. Maent yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau sy’n hybu eu hiechyd a’u lles yn effeithiol. Er enghraifft, mae’r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau cyd-bwyso yn effeithiol gan ddefnyddio ystod o offer gan gynnwys rheoli beiciau a chymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr parc antur. Mae’r disgyblion hynaf yn cymryd rhan mewn gemau tîm fel pêl-droed a phêl rwyd ac yn datblygu medrau cadarn mewn gweithgareddau addysg gorfforol amrywiol.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron bob disgybl yn hapus o fewn amgylchedd croesawgar a chynhwysol yr ysgol. Mae ymddygiad bron bob disgybl yn y dosbarth ac yn ystod amseroedd egwyl yn dda iawn ac maent yn dangos parch cyson at ei gilydd, oedolion ac ymwelwyr. Mae’r modd y mae’r disgyblion hynaf yn cefnogi’r rhai ieuengaf yn gryfder, er enghraifft wrth iddynt gyd-chwarae gemau ar y buarth. Mae bron bob disgybl yn teimlo’n ddiogel ac yn ffyddiog bod staff yn ymateb yn brydlon i’w pryderon. O ganlyniad, mae’r ymdeimlad o fod yn aelod o un teulu mawr yn treiddio trwy fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae bron bob disgybl yn datblygu dealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd o fod yn ddinasyddion moesol ac egwyddorol. Drwy ystod eang o brofiadau, gan gynnwys cyfrannu at elusennau amrywiol, maent yn datblygu dealltwriaeth dda o anghenion eraill a phwysigrwydd cynnwys, a dangos parch at bawb yn y gymdeithas. Trwy eu themâu a gweithgareddau, maent yn dysgu am werthoedd cadarn gan gynnwys amrywiaeth a chydraddoldeb, a'r angen i barchu diwylliannau a chredoau eraill.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o'u hawliau. Maent yn mwynhau cymryd rhan mewn sesiynau amser cylch yn rheolaidd sy'n cynnig cyfleoedd buddiol iddynt drafod eu teimladau ac i rannu pryderon. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o sut i gadw'n iach gan gynnwys pwysigrwydd ymarfer corff a chynnal diet cytbwys. Maent yn mwynhau cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau corfforol a ddarperir ar eu cyfer, gan gynnwys cystadlaethau pêl-droed, pêl-rwyd, dawns, criced ac athletau. Mae gan ran fwyaf o ddisgyblion wybodaeth gadarn am ddiogelwch ar-lein, er enghraifft wrth osod cyfrinair i gadw eu mannau gwaith digidol yn ddiogel, a pha gamau i gymryd petai ddieithryn yn ceisio cysylltu â nhw ar-lein. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn datblygu medrau gydol oes bwysig ac yn datblygu'n unigolion sy'n dangos gwytnwch a dyfalbarhad.

Mae bron bob disgybl yn gwerthfawrogi'r cyfloed a gânt i ddylanwadu ar yr hyn maent yn ei ddysgu. Er enghraifft, ar gychwyn thema newydd, maent yn cyfrannu eu syniadau am yr hyn maent yn ei wybod yn barod, a chyfleu yr hyn yr hoffent ei ddysgu ymhellach. Mae'r disgyblion sydd ar yr aml bwyllgorau yn cyfrannu eu syniadau yn frwdfrydig ar sut y gellir datblygu a gwella'r ddarpariaeth ar eu cyfer. Er enghraifft, mae'r disgyblion sydd yn rhan o'r cyngor ysgol wedi bod yn flaenllaw wrth benderfynu ac archebu offer chwarae ar gyfer amseroedd egwyl.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a medrus sy'n barod iawn i ddysgu. Maent yn dangos brwdfrydedd ac ymrwymiad uchel at eu tasgau ac yn cyflawni'n effeithiol o fewn eu gweithgareddau. Wrth wynebu profiadau dysgu newydd ac anghyfarwydd, maent yn dangos dyfalbarhad a chwilfrydedd ac yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd. Er hyn, nid yw'r disgyblion bob amser yn cael digon o gyfleoedd pwrpasol i benderfynu ar y modd maent am gyflwyno eu gwaith, yn enwedig ym mlynyddoedd uchaf yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos parch at gyflawniadau eu cyfoedion ac yn barod i gynorthwyo ei gilydd yn gyson. Maent yn barod i wrando ar gyfraniadau ei gilydd sy'n fodd o ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ymhellach. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlynyddoedd 3 a 4 yn cael budd o drafod a rhannu eu syniadau am faterion cyfoes fel peryglon llygredd, gan gynnwys effaith sbwriel ar Yr Wyddfa.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i adborth staff. Maent yn darllen dros eu gwaith yn frwdfrydig gan gywiro gwallau fel bo'n briodol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o camau nesaf eu dysgu er mwyn gwella a datblygu ymhellach.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae gan yr holl staff berthynas waith agos a chynnes gyda'r disgyblion. Maent yn trin bob disgybl gyda charedigrwydd a pharch sydd yn creu amgylchedd cynhwysol a gofalgar. Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau'n fedrus i sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflawni'n dda ac yn mwynhau dysgu mewn profiadau

gwerthfawr sy’n datblygu eu gwybodaeth, eu medrau a’u dealltwriaeth yn fwriadus. Mae’r staff yn angerddol am yr iaith Gymraeg ac yn manteisio ar bob cyfle i ddatblygu a gloywi medrau iaith lafar Cymraeg disgyblion  Maent yn meithrin ethos Cymreig cryf, ynghyd â'r ddarpariaeth greadigol sy’n hybu'r disgyblion i wneud defnydd pwrpasol o'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd yr ysgol. O ganlyniad, maent yn datblygu'n ddysgwyr cymwys a hyderus.

Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer cyflwyno Cwricwlwm i Gymru yn datblygu’n effeithiol. Mae athrawon yn cydweithio a chynllunio’n bwrpasol i ddarparu profiadau diddorol ac ysgogol i ddisgyblion sy’n cwmpasu’r meysydd dysgu yn gynhwysfawr. Mae staff yn darparu cyfleoedd bwriadus i’r disgyblion ieuengaf gydweithio yn yr ardaloedd dysgu i ddatblygu eu medrau creadigol yn effeithiol. Ym mlynyddoedd uchaf yr ysgol, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i’r disgyblion ddwysau eu gwybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o feysydd fel daearyddiaeth, er enghraifft wrth iddynt gymharu uchder tir yr ardal leol gan gyflwyno’r wybodaeth yn fedrus mewn graffiau a siartiau.

Un o’r cryfderau amlwg yw’r modd mae’r athrawon yn cynllunio’n fwriadus er mwyn datblygu ystod o fedrau llythrennedd, rhifedd a digidol y disgyblion. Mae blaenoriaeth cadarn yn cael ei roi ar ddatblygu’r medrau darllen Cymraeg a Saesneg disgyblion. Mae’r athrawon yn cyd gynllunio’n effeithiol i ddarparu ystod o gyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu at wahanol bwrpasau ac mewn cyd-destun bywyd go iawn. Er enghraifft, mae’r disgyblion ieuengaf yn ysgrifennu cardiau post yn seiliedig ar gymeriad o stori gyfarwydd tra bod y disgyblion hynaf yn ysgrifennu adroddiad ffeithiol yn esbonio effaith daeargryn ar fywydau pobl. Ar draws yr ysgol, mae’r athrawon yn sicrhau bod cyfleoedd cyson i’r disgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd a digidol. Er enghraifft, fel rhan o’r gwaith mentergarwch, mae disgyblion yn defnyddio taenlenni yn effeithiol er mwyn cyfrifo’r cost ac elw wrth werthu eu cynnyrch mewn siopau lleol. Trwy hyn, mae’r disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddwysau eu dealltwriaeth am elw a cholled.

Mae’r disgyblion ieuengaf yn mwynhau’r profiadau dysgu ac yn gwneud cynnydd yn eu medrau mewn gweithgareddau ysgogol yn yr ardaloedd dysgu y tu mewn a thu allan, er enghraifft wrth ddatblygu eu medrau llafar wrth wisgo fel warden parc. Mae’r disgyblion hynaf yn mwynhau dysgu am chwedlau gan ddatblygu eu dealltwriaeth o gymeriadau trwy ddefnyddio amrywiaeth dda o ddulliau dysgu. Mae’r athrawon yn cynllunio ymweliadau addysgol difyr i’r disgyblion sy’n cysylltu’n bwrpasol â’u themâu. Er enghraifft, cafodd y disgyblion hynaf brofiad gwerthfawr wrth ymweld â lleoliadau perthnasol i fywyd Solomon Andrews yn ystod eu hymweliad a Chaerdydd. Roedd hyn yn effeithiol wrth ddwyshau dealltwriaeth y disgyblion o’i ddylanwad ar yr ardal leol drwy ddatblygu'r tir ym Mhwllheli a phrynu Plas Glyn Y Weddw.

Mae athrawon yn defnyddio dulliau holi medrus sy’n adeiladu ar ddysgu blaenorol disgyblion ac ymestyn eu dealltwriaeth ymhellach yn llwyddiannus. Maent yn cynnwys y disgyblion yn bwrpasol yn y broses o bennu’r nodau a’r meini prawf er mwyn eu cefnogi i lwyddo. Maent yn darparu cyfleodd cyson i ddisgyblion ddysgu’n annibynnol, mewn parau a grwpiau bychain sy’n cynnig cyfleoedd cyfoethog iddynt rannu eu syniadau a datblygu eu medrau meddwl ymhellach.

Mae athrawon yn darparu gweithgareddau pwrpasol sy’n ymateb yn briodol i anghenion unigol y disgyblion. Er hyn, nid yw athrawon bob amser yn darparu digon

o gyfleodd pwrpasol i ddisgyblion wneud penderfyniadau am y modd maent eisiau cofnodi a chyflwyno eu gwaith, yn enwedig ym mlynyddoedd uwch yr ysgol. Mae athrawon yn cefnogi disgyblion i fyfyrio a gwella safon eu gwaith yn fedrus. Er enghraifft, maent yn darparu adborth a chynnig cyfleoedd cyson i'r disgyblion hynaf ail ymweld â'u gwaith er mwyn ei ddatblygu ymhellach. O ganlyniad, mae'r ystod o fedrau disgyblion yn datblygu'n effeithiol wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r pennaeth a'r staff yn darparu cymuned ofalgar ac ysgogol yn seiliedig ar werthoedd cadarn. Mae gan y staff adnabyddiaeth drylwyr o bob disgybl a'u hanghenion unigol. Maent yn ymdrin ag unrhyw fater sy'n codi mewn modd cefnogol a chaiff pryderon eu datrys yn gyflym. O ganlyniad i'r berthynas gynhaliol rhwng y disgyblion a'r staff, mae bron bob disgybl yn hapus i ddod i'r ysgol, yn cydweithio'n dda o fewn y gwersi ac yn cyd chwarae'n dda yn ystod amseroedd egwyl.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r pennaeth, sy'n gweithredu fel cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) yn olrhain cynnydd disgyblion yn fanwl ac yn gwerthuso effaith rhaglenni cefnogi ar eu cynnydd yn effeithiol. Mae proffiliau un tudalen pwrpasol yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol o anghenion unigol disgyblion a'r hyn sydd ei angen arnynt i ddatblygu ymhellach. Mae'r CADY yn darparu cyfleoedd i rieni, staff a disgyblion gyfrannu'n bwrpasol at gynllun datblygu unigol disgyblion. Mae'r staff yn gwerthuso cynnydd y disgyblion yn erbyn eu targedau er mwyn eu cefnogi i wneud cynnydd yn eu medrau dros gyfnod.

Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gadw'n heini ac i ofalu am eu lles emosiynol. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd bwriadus i ymgymryd ag amrywiaeth eang o weithgareddau chwaraeon ynghyd â gweithgareddau awyr agored drwy ymweliadau preswyl â gwersylloedd Yr Urdd. Mae'r cyfleoedd dyddiol i drafod a rhannu teimladau a'r sesiynau meddylgarwch yn cyfrannu'n fuddiol at hybu lles a gwytnwch y disgyblion. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn mwynhau'r ysgol ac yn barod i ymgymryd â'u tasgau dysgu gyda brwdfrydedd.

Mae'r athrawon yn manteisio i'r eithaf ar yr ardal leol er mwyn dwysau gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o'i hanes a threftadaeth. Mae gan yr ysgol gyswllt agos gydag amryw o sefydliadau lleol gan gynnwys Oriel Plas Glyn Y Weddw, addoldai a siopau lleol. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd cyfoethog i'r disgyblion gryfhau eu hadnabyddiaeth a balchder tuag at eu cynefin. Mae'r athrawon yn hyrwyddo'r ymdeimlad sydd gan bron bob disgybl o'u hunaniaeth yn effeithiol drwy ddarparu cyfleoedd cyfoethog i'r disgyblion ddathlu'r diwylliant Cymreig a Chymraeg. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn dysgu am ddigwyddiadau pwysig yn hanes Cymru drwy gymryd rhan mewn dramâu gan gynnwys perfformiad cofio trychineb Aberfan. Darperir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llafar Cymraeg a hunan hyder drwy berfformiadau mewn eisteddfodau ysgol a chenedlaethol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn bwrpasol. Rhoddir cyfleoedd diddorol a buddiol i ddisgyblion fyfyrio ar werthoedd ac i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth sydd ei angen arnynt i ddeall a gwerthfawrogi byd amrywiol. Darperir cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am wahanol grefyddau, er

enghraifft drwy ymchwilio a chymharu ystod o draddodiadau yn ymwneud â bwydydd. Mae'r sesiynau addoli ar y cyd, yn cynnwys ymweliadau â'r eglwys a'r capel lleol ar gyfer dathliadau achlysuron fel Y Nadolig yn gyfrwng effeithiol i hyrwyddo'r agweddau hyn.

Mae athrawon yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth a dealltwriaeth o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn effeithiol. Drwy weithgareddau fel rhan o fis pobol ddu er enghraifft, mae'r disgyblion yn dysgu am y frwydr hanesyddol i sicrhau hawliau dynol i bawb, gan gynnwys cyflawniadau Betty Campbell.

Mae'r ysgol yn rhoi lle canolog i hyrwyddo llais disgyblion ym mywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r ystod dda o gynghorau yn llwyddo i ddatblygu gwybodaeth, medrau a hyder y disgyblion yn effeithiol. Er enghraifft, mae aelodau'r Grŵp Gwyrdd yn datblygu syniadau ac yn dylanwadu ar eu cyfoedion drwy gyflwyno bocsys bwydo adar ar dir yr ysgol a biniau ailgylchu bwyd ymhob dosbarth.

Mae meithrin creadigrwydd disgyblion yn elfen o gryfder o fewn y ddarpariaeth sy'n dylanwadu'n hynod gadarnhaol ar les a datblygiad y disgyblion. Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd pwrpasol i'r disgyblion feithrin eu syniadau a'u medrau drwy amrywiol gyfryngau creadigol. Er enghraifft, mae disgyblion yn datblygu eu medrau celf yn llwyddiannus wrth greu modelau 3D o'r Ddelw ar fynydd Tir Cwmwd. Mae'r ysgol yn flaengar wrth wahodd ystod o artistiaid proffesiynol, er enghraifft cerddorion, beirdd ac arlunwyr i gyfoethogi'r ddarpariaeth ac i ehangu gorwelion y disgyblion. Cynigia'r staff gyfleoedd i ddisgyblion gyfranogi mewn perfformiadau a digwyddiadau fel unigolion ac mewn grwpiau. Mae hyn yn meithrin eu gallu mynegiannol a chreadigol yn effeithiol gan ddatblygu ystod eang o fedrau a hunan hyder y disgyblion.

Mae diwylliant cryf o ddiogelu yn bodoli yn yr ysgol. Mae gan staff ddealltwriaeth gadarn o brosesau diogelu ac mae arweinwyr yn ymateb yn briodol i unrhyw achosion unigol, gan gydweithio ag asiantaethau eraill yn effeithiol. Mae prosesau'r ysgol ar gyfer sicrhau prydlondeb a phresenoldeb cyson disgyblion yn gadarn.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan arweinwyr weledigaeth gadarn sy'n seiliedig ar ddatblygu ystod o fedrau'r disgyblion o fewn amgylchedd cynhwysol, cyfeillgar a Chymreig. Mae blaenoriaeth glir yn cael ei roi ar ddatblygu lles pob disgybl a'u gallu i ymateb yn aeddfed i unrhyw bryderon neu anawsterau maent yn eu hwynebu. Mae'r pennaeth yn cael ei chefnogi'n frwd gan staff hynod ymroddgar sy'n rhannu'r weledigaeth hon yn effeithiol gyda'r disgyblion a chymuned ehangach yr ysgol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr ymdeimlad o waith tîm yn effeithiol ar draws yr ysgol. Mae gan bob aelod o staff ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Maent yn gyfrifol am agweddau penodol ar waith yr ysgol ac yn cyfrannu'n bwrpasol at sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion sydd ag anghenion ychwanegol a rhai sy'n cael eu heffeithio gan dlodi, yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau dros amser. Mae cynlluniau cadarn yn cael eu gweithredu i ddatblygu medrau llafar Cymraeg a Saesneg, darllen, ysgrifennu, rhifedd a digidol y disgyblion.

Mae gan yr arweinwyr ac athrawon ddealltwriaeth gadarn o brif gryfderau a meysydd gwella'r ysgol. Maent yn defnyddio ystod o weithgareddau pwrpasol ar gyfer gwerthuso safonau ac addysgu gan gynnwys monitro cynlluniau, craffu gwaith disgyblion a thrwy gynnal teithiau dysgu. Mae hyn wedi cefnogi arweinwyr i adnabod yr angen i wella rhai agweddau penodol o fedrau'r disgyblion, gan gynnwys eu medrau cyfrifo cyflym. Trwy hyn, mae arweinwyr wedi gweithio'n strategol i gyflwyno cynllun gwella medrau rhif disgyblion ar draws yr ysgol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar wybodaeth a dealltwriaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion i gymhwyso eu medrau rhif i amrywiaeth dda gyd-destunau bywyd go iawn.

Mae arweinwyr yn creu diwylliant ac ethos cadarnhaol i hybu a chefnogi dysgu proffesiynol yr holl staff. Mae bob aelod o staff yn cael cyfleoedd cyson i fynychu cyrsiau a hyfforddiant sydd yn cysylltu'n uniongyrchol gyda'u hanghenion unigol a blaenoriaethau strategol yr ysgol. Maent yn rhannu syniadau a'r arferion gorau gyda'i gilydd a chydweithwyr mewn ysgolion eraill yn bwrpasol. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarn yr ysgol at weithredu fel sefydliad sy'n dysgu. Mae arweinwyr wedi gweithio'n ddiwyd i greu diwylliant cryf o ddarllen ar draws yr ysgol. Fel rhan o'u themâu tymhorol, mae athrawon yn cynnig cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion ddwysau eu dealltwriaeth o'u themâu. Gwneir hyn drwy ddarllen nofelau ar y cyd sy'n cysylltu'n effeithiol gyda'u gwaith a'r defnydd pwrpasol o fatiau darllen ar draws y meysydd dysgu. Mae hyn yn cael effaith cadarnhaol iawn ar fedrau darllen y disgyblion a'u boddhad wrth ddarllen ystod o destunau ffeithiol a ffuglen.

Mae'r corff llywodraethol yn gweithredu'n effeithiol i gefnogi a herio'r arweinwyr yn fwriadus. Maent yn cymryd rhan lawn yn y prosesau hunanwerthuso gan amlygu arferion dysgu ac addysgu effeithiol a'r meysydd i'w gwella. Mae arweinwyr, gan gynnwys aelodau'r corff llywodraethu, yn rheoli'r gyllideb yn gadarn i gefnogi'r blaenoriaethau strategol. Gwneir defnydd effeithiol o grantiau, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, i wella deilliannau'r disgyblion. Trwy gyfrwng y grantiau hyn, darperir rhaglenni cymorth llythrennedd, rhifedd a medrau cymdeithasol ar gyfer dysgwyr penodol yn fwriadus.

Mae'r corff llywodraethol yn manteisio ar gyfleoedd i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, er enghraifft drwy annog disgyblion i fwyta ffrwyth ac yfed dŵr yn ystod y dydd. Mae arweinwyr yn sicrhau bod diwylliant o ddiogelu disgyblion yn flaenllaw yn yr ysgol. Mae gan bob aelod o staff ddealltwriaeth gadarn o'r gweithdrefnau diogelu.

Mae gan yr ysgol berthynas glos ac adeiladol gyda rhieni a'r gymuned leol. Mae'r pennaeth yn cynnwys sylwadau rhieni wrth wneud penderfyniadau strategol am y ddarpariaeth a gynigir i'r disgyblion. Mae rhieni yn derbyn cyfleoedd addas i ddylanwadu ar waith yr ysgol. Er enghraifft, maent yn cynnig syniadau am gynnwys cwricwlwm yr ysgol ac yn cyfrannu eu syniadau ar sut gellir gwella diogelwch safle'r ysgol. Mae staff yn gwneud defnydd hynod effeithiol o'r gymuned i ehangu'r ddarpariaeth a'r cyfleoedd sydd ar gael i ddisgyblion. Fel rhan o'r prosiectau mentergarwch, mae'r disgyblion yn derbyn cyfleoedd pwrpasol i weithio gyda busnesau lleol i werthu eu cynnyrch. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o gysyniadau pwysig a chyfraniad busnesau lleol yn y gymuned yn effeithiol.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW    neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/05/2024